CAFFAEL CALON DDOETH

Nodyn i'r siaradwr:
Helpwch y gynulleidfa i ddatblygu golygwedd realistig tuag at y problemau a phwysau a all godi mewn bywyd. Dangoswch sut i gaffael doethineb dwyfol i ymdopi â'r rhain

MAE ANGEN CALON DDOETH I YMDOPI Â PHROBLEMAU A PHWYSAU BYWYD (3 mun.)

Byrhoedlog yw'r ddynoliaeth; 70 i 80 mlynedd o 'faich a blinder'; llawer o broblemau i ymdrechu â nhw (Salmau 90:10)

Hyd yn oed ymhlith gweision Duw, mae cwynion, problemau, a phwysau yn codi

Diwedd cwynion gan yr Israeliaid i Moses oedd argyfwng yn Meriba (Num 20:2-13)

Profodd Cristnogion y ganrif gyntaf anawsterau (Act 11:27-29; Phil 4:2, 3)

Yn wyneb egwyddor Pregethwr 7:7, mae angen inni gaffael doethineb dwyfol

Mae doethineb yn cyfuno barn gadarn gyda gwybodaeth (*w*82 10/15 22)

Byddai calon ddoeth wedi gallu helpu Moses i ymdrin â chael ei herio a pheidio â bod yn fyrbwyll (Darllen Salmau 90:12) (Salmau 106:32, 33)

MAE GWEISION DUW WEDI GODDEF PWYSAU MEWNOL ERS AMSER (10 mun.)

Goddefodd yr Israeliaid reolaeth brenhinoedd, offeiriaid, barnwyr, drwg

Fe fu i Ddafydd 'ymddwyn yn ddoeth' ym mhresenoldeb y Brenin Saul drwg (1Sam 18:10-15 *BCL*)

Gwasanaethodd Samuel Jehofah yn ffyddlon er gwaethaf esiamplau gwael Eli a'i feibion (1Sam, penodau 2, 3)

Profodd Cristnogion y ganrif gyntaf broblemau, gan gynnwys ymraniadau, "ymrafaelion" a "chwerylon" mewnol (Iago 4:1-3; 1Cor 1:10, 11)

Mae penodau 2 a 3 o Lyfr y Datguddiad yn proffwydo anawsterau mewnol yn y dyfodol (*w*89 4/1 12, 13)

Mae'r problemau yn cynnwys colli cariad cynnar at Jehofah (Dat 2:4), glynu wrth syniadau gau (Dat 2:14), goddef enwadaeth (Dat 2:15) a dylanwad "Jesebel" (Dat 2:20), difrawder (Dat 3:2, 15, 16)

Dengys yr enghreifftiau hyn na ddylem ddisgwyl perffeithrwydd gan gyd-weision Jehofah ond y dylem gaffael calon ddoeth i ymdopi â phroblemau a phwysau o'r fath

SUT TRINIWYD PROBLEMAU YN Y GYNULLEIDFA GRISTNOGOL GYNNAR Â CHALON DDOETH (12 mun.)

'Roedd *enwaedu* yn destun dadl ymhlith y rhai oedd yn dal i gredu ei fod yn ofynnol (Act 11:2, 3; 15:1; *w*89 2/15 18-20)

Aethpwyd â'r mater o flaen y corff llywodraethol (Act 15:2)

Gwnaed penderfyniad unfrydol, seiliedig ar Air Duw a chafwyd tystiolaeth o dywalltiad yr ysbryd sanctaidd ar y dienwaededig (Act 15:3, 15-18, 25; *w*90 6/15 12-13)

Er gwaethaf penderfyniad 49 C.C., parhâi enwaedu yn destun dadl i rai nad oedd ganddynt galon ddoeth (*w*89 2/15 18-20)

Dadleuodd Paul yn erbyn enwaedu yn ei lythyr at y Galatiaid a ysgrifennwyd tua 50-52 C.C. (Gal 5:1-3)

Ymdriniodd â'r pwnc eto yn ei lythyr cyntaf at y Corinthiaid, tua 55 C.C. (1Cor 7:18-20)

Ymdriniwyd â phleidwyr enwaedu yn fwy grymus yn y llythyr at y Philipiaid, tua 60-61 C.C. (Phil 3:1-3)

Efallai i rai gael eu diarddel i ddiogelu'r gynulleidfa (Tit 1:10, 11; 3:10, 11)

'Roedd *yr atgyfodiad* yn destun trafod brwd arall ymhlith Cristnogion y ganrif gyntaf

Efallai y gogwyddai'r rhai a fuasai yn Phariseaid tuag at y syniad o enaid anfarwol (*it*-2 625)

Yn 55 C.C., credai rhai nad oedd atgyfodiad (1Cor 15:12)

Gwrthbrofodd yr Apostol Paul hyn gan seilio'i ddadleuon ar ffeithiau ac Ysgrythurau (1Cor 15:3-8; *w*81 12/15 18)

Yn 65 C.C., 'roedd rhai a oedd wedi gwyro oddi wrth y ffydd yn honni i'r atgyfodiad eisoes ddigwydd (2Tim 2:16-18)

Rhybuddiwyd Cristnogion ynglŷn â chymdeithasu â'r rheiny nad oeddent efallai wedi adnewyddu eu meddwl yn llwyr (1Cor 15:33; *w*93 8/1 16)

Wrth drin y problemau hyn ac eraill, dangosodd Paul wroldeb a chalon ddoeth

BETH FYDD YN EIN HELPU I GAFFAEL CALON DDOETH HEDDIW? (17 mun.)

Cydnabyddwch fod rhai heddiw, fel yn y ganrif gyntaf, yn gwneud haeriadau cryf neu yn mynegi barn bersonol ar ystod eang o bynciau dadleuol (1Tim 1:7)

Dangosodd Paul bwysigrwydd undod a'r angen inni fod wedi'n "cyfannu" yn ein haddoliad (1Cor 1:10; 4:6)

Cwrs doethineb yw glynu wrth Air Duw a'r arweiniad a ddarperir gan "y gwas ffyddlon a chall" (Mth 24:45-47; Salmau 19:7)

Peidio â gwneud materion y mae'r Beibl yn caniatau i'r gydwybod benderfynu arnynt yn destun dadl (*w*77 723 ¶25)

Cydnabod nad yw'r gynulleidfa yn anffaeledig

Yn gynyddol y llifa'r gwirionedd (Diar 4:18)

'Dyw pobl Jehofah ddim yn honni bod yn broffwydi *ysbrydoledig* (*rs* 136-7)

'Does dim o'i le mewn bod â diddordeb mewn cronoleg Feiblaidd cyhyd ag y mae'n ein helpu i gadw'n ysbrydol effro (Mth 24:3; Act 1:6)

Eto, gall awydd a brwdfrydedd arwain at ddisgwyliadau cynamserol

Gall disgwyliadau o'r fath weithredu i ddatguddio gwir gyflwr y galon

Mae'r rhai sy'n gwasanaethu gyda'r cymhelliad anaddas yn dod yn anfoddog, yn dychwelyd i'r byd am resymau hunanol, yn dod yn ysbrydol glaf (Diar 13:12)

'Dyw'r rhai sydd â chalon ddoeth ddim yn siomedig ond yn 'dal ar eu cyfle,' gan gynyddu'u gwasanaeth hyd yn oed (Eff 5:15, 16)

Bydded gennych farn gytbwys ynglŷn â'r henuriaid ac eraill

Osgowch y duedd afrealistig i ddisgwyl perffeithrwydd gan eraill (Preg 7:9, 21, 22)

Megis y mae perl yn gynnyrch llidio, fe fedrwn ninnau ddatblygu a thyfu mewn gostyngeiddrwydd, cariad, dyfalbarhad, a ffrwythau eraill yr ysbryd os derbyniwn amherffeithrwydd eraill (Iago 1:2-4)

'Ddylem ni ddim gadael i sefyllfaoedd y mae Jehofah yn eu caniatáu achosi inni ddal dig yn ei erbyn (Diar 19:3; *w*77 605-6)

Diogelwch eich calon; ymddiriedwch yn Jehofah (Diar 3:5, 6; 4:23)

MYNNWCH GAFFAEL CALON DDOETH (3 mun.)

Mae Jehofah yn caniatáu problemau a phwysau bywyd er mwyn inni ddysgu amynedd, gostyngeiddrwydd, teyrngarwch, a dibyniaeth arno ef a phrofi'r hyn sy'n ein calonnau (Heb 3:12, 13)

Mae'r ffordd yr ymatebwn yn dangos i ba raddau mae gennym galon ddoeth a'r hyn sydd angen efallai inni weithio arno eto

Mae'n hanfodol ein bod yn ostyngedig gadw'r agwedd a fynegir yn Salmau 90:12

Archwiliwch eich calon bob dydd; gweddiwch am 'gael calon ddoeth'

(Glynwch yn glòs wrth y deunydd a amlinellwyd, a chadw at yr amser a nodwyd ar gyfer pob adran. 'Does dim angen darllen pob testun a grybwyllir. 'Does dim rhaid crybwyll y deunydd ffynhonnell mewn cromfachau)